



Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

Cymdeithas Bob Owen

Tâl aelodaeth
£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

SWYDDOGION

Llywydd:

Dr. E. D. Jones

Cadeirydd:

D. Tecwyn Lloyd

Ysgrifennydd:

Richard H. Lewis

40 Maes Ceiro,

Bow Street, Dyfed.

(Aberystwyth 828102)

Trysorydd a Threfnydd Busnes:

John Dilwyn Williams,

Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,

Pwllheli, Gwynedd.

(Pwllheli 613480)

Golygydd:

John Roberts Williams,

18 Minfordd, Llanrug, Caernarfon.

(Caernarfon 3593)

Cyhoeddir Y Casglwr

gyda chymorth ariannol

Cyngor Celfyddydau Cymru.

AR WERTH

EIFIONYDD, Colin Gresham. Fel newydd — prin iawn. Unrhyw gynng rhesymol sylweddol. Chwilog 0766 810501.

Beibl Peter Williams, (1811); Y Bywgraffiadur Cymraeg hyd 1940; a The Heart of the Antarctic gan Shackleton (argraffiad cyfyngedig mewn dwy gyfrol).

Y Parch. Trevor Watts, 16 Shelton Road, Shrewsbury, Shropshire, SY38SS Ffôn (0743) 54104

YN EISIAU

Thomas Roberts (Llwynrhudol) The Welsh Interpreter, Llundain 1831.

William Spurrell, Practical lessons in Welsh in imitation of the national method of learning to speak a language, Caerfyrddin 1881.

H. Godfrey, 7 South Parade, Croft-on-Tees, Darlington, DL2 2SN Ffôn (0325) 720795.

Dwy gyfrol o waith R Gerallt Jones, sef Tiptych (1977) a Cafflogion (1979), a'r gyfrol ddiddorol Gwinllan Fy Hynafiaid gan D. Alun Lloyd (1968)

Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed, SY24 5BG. Ffôn Aberystwyth 828102.

Casglu a Golygu Gwaith Ieuan Llŷn. Gan Myrddin Fardd. Cyhoeddwr: Richard Jones, Pwllheli 1873.

Dewi Williams, Tyddyn Deucwm Uchaf, Penmorfa, Porthmadog, Gwynedd. Ffôn: Porthmadog 512045.

AC AR EI NEWYDD WEDD ...

YN GYNNAR yn 1961 daeth gwahoddiad o Gyngor Eglwys Cymru i'r Eglwys sefydlu Cydbwyllgor er mwyn trefnu, paratoi a chyhoeddi cyfieithiad newydd o'r Beibl cyflawn i Gymraeg. Derbyniwyd y gwahoddiad gan yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb yr Annibynwyr ac Undeb y Bedyddwyr; a phenodwyd cynrychiolwyr gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig hithau.

Penodwyd yn Gyfarwyddwr ar y gwaith y diweddar Barchedig Brifathro W.R. Williams, prif ysgogydd y penderfyniad gwreiddiol yng Nghyngor Eglwys Cymru. Penodwyd hefyd y Gwir Barchedig Gwilym O. Williams (Esgob Bangor, ac yn ddiweddarach Archesgob Cymru) yn Gadeirydd y Cydbwyllgor, y Parchedig Griffith T. Roberts yn Ysgrifennydd, a'r diweddar Ddr. T.I. Ellis yn Drysorydd.

Bu'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn eu swyddi yn ddi-fwlch hyd heddiw, ond bu gan y Cydbwyllgor bedwar o drysoryddion; dilynwyd Dr. Ellis gan Mr. Edward Rees, ac yntau yn ei dro gan y diweddar Mr Alwyn Hughes-Jones, a'r Trysorydd presennol yw'r Hybarch H. Arfon Evans.

OTHERWYDD gwaeledd y Cyfarwyddwr, araf fu'r datblygiadau hyd Ionawr 1963. Ar ei farwolaeth ef, cydsyniodd y diweddar Barchedig Athro Bleddyn Jones Roberts i ddod yn Gyfarwyddwr. Sefydlwyd Panel Cyfieithu'r Hen Destament dan ei oruchwyliaeth ef, Panel Cyfieithu'r Testament Newydd dan ofal y Parchedig Owen E. Evans, a Phanel Llennyddol dan gadeiryddiaeth y diweddar Brifathro Dr. (wedi hynny Syr) Thomas Parry. Gorfu i'r Athro Bleddyn Jones Roberts ymddiswyddo er lles ei iechyd yn 1974, ac fe'i dilynwyd fel Cyfarwyddwr gan y Parchedig Owen E. Evans, ac fel Cadeirydd panel Cyfieithu'r Hen Destament gan Mr Dafydd Ap-Thomas.

Parhaodd Syr Thomas Parry i ofalu am iaith ac arddull y cyfieithiad hyd ei farwolaeth yn Ebrill 1985; erbyn hynny yr oedd y cyfieithu wedi ei gwblhau, a Syr Thomas wedi medru darllen a chywiro pob rhan ohono ac eithrio un llyfr o'r Hen Destament ac un llyfr o'r Apocryffa. Penodwyd yr Athro Bedwyr Lewis Jones i'w olynu fel Cadeirydd y Panel Llennyddol.

CYHOEDDWDYD fersiwn Y Beibl Cymraeg Newydd o'r Testament Newydd yn 1975 a'r fersiwn o'r Salmu yn 1979, a chalondid fu'r derbyniad brwd a gafodd y naill a'r llall. Y mae argraffiad 1988 o'r Beibl cyflawn yn cynnwys fersiynau diwygiedig o Destament Newydd 1975 ac o Salmu 1979.

Ar ôl cyhoeddi'r Testament Newydd yn 1975, ymgymerodd y



Panel Cyfieithu â'r dasg o gyfieithu'r Apocryffa. Gan gofio'r gwahaniaeth barn sy'n bod ymhlith yr Eglwys ynglŷn â statws ysgrthurol yr Apocryffa (gw. y Rhagarweiniad i'r Apocryffa), penderfynodd y Cydbwyllgor gyhoeddi Y Beibl Cymraeg Newydd mewn dau argraffiad, y naill yn cynnwys yr Apocryffa a'r llall hebdo.

GOSODWYD y teip, ar gyfer yr argraffiad presennol fel yn 1975 a 1979, gan staff Gwasg Cambrian News Cyf.

Ni lwyddodd y Cyhoeddwr i ddarganfod cwmni Cymreig a feddai'r holl adnoddau angenrheidiol ar gyfer y dasg gymhleth o argraffu a chynhyrchu cyflenwad mor fawr o gyfrolau (75,000 mewn pum argraffiad gwahanol yn achos Beibl 1988) mewn amser byr. Rhaid felly oedd argraffu a rhwymo mewn gweisg Seisnig hen gyfarwydd ag argraffu Ysgrythurau; Richard Clay (The Chaucer Press) Ltd., Bungay, Suffolk yn 1975; Fletcher and Son Ltd., Norwich yn 1979; a The Bath Press, Avon yn 1988.

CAFWYD cymorth ariannol, at gostau'r cyfieithu a'r cyhoeddi, gan Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James a Chynghorau

Sir Clwyd, Dyfed, Gwent, Gwynedd, Morgannwg Ganol, De Morgannwg, Gorllewin Morgannwg a Phowys, a gan yr Eglwys ac unigolion.

RHODDION

£21 E.W. Jones, Llangefni.
£7 N. Rhosier, Llangollen; W.J. Rees, Hwlfordd.
£5 G. Roberts, Clynnog.
£4 J.L.I. Williams, Llanfugail;
£3 W. Hughes, Talwrn; R.G. Jones, Caerdydd.
£2 G.E. Evans, Southampton; A.D. Davies, Acrefair; Mrs L. Roberts, Rhoslan; M. Owen, Llundain; Dr. W.B.L. Evans, Penrhyncoch; Mrs G.L. Carr, Bangor; D.J. Brown, Castle Donnington; J.O. Jones, Porthaethwy; Miss C.M. Jones, Pont-rhyd-y-bont; R. Evans, Dolgellau; C. Jones, Wrecsam; T. Edwards, Y Parc; H. Jones, Rhandirmwyn; Dr. L. Madden, Aberystwyth; E.N. Williams, Porthaethwy; D.M. Lloyd, Abertelf; W.H. Price, Llanelli; M.G. Owen, Criccieth; R.T. Jones, Llanarmon-yn-Iâl; G.E. Rees, Caerdydd; W.J. Williams, Bangor; T.H. Godfrey, Darlington; G.J. Williams, Rhuhun; D.C. Griffiths, Trefor; A. Jones, Rhuddlan; H. Jones, Rhoshirwaun; I.G. Evans, Deiniolen.
£1 J.R. Thomas, Y Rhos; M.H. Greenacombe, Croydon; T. Watts, Yr Amwythig.